**CYNGOR SIR FYNWY**

**Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoli County Hall, Usk - Remote Attendance**
**Dydd Gwener, 12fed Tachwedd, 2021, 10.00 am**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol: J. Higginson, R.Roden, B. Strong |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Linda O'Gorman | Principal Licensing Officer |
| Ben Davies | Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Roedd y Cynghorydd Sir R. Roden wedi datganiad buddiant personol, na sy'n rhagfarnu yn unol gyda'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau gan ei fod yn adnabod y gwrthwynebydd yn y cyfarfod heddiw. Mae'r Cynghorydd Roden a'r gwrthwynebydd yn mynychu'r un eglwys.

2. **Cais am Drwydded Safle ar gyfer "The Club", 15 Stryd Whitecross, Trefynwy, Sir Fynwy, NP25 3BY**

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio wedi ystyried cais o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 am Drwydded Mangre ar gyfer "The Club" 15 Stryd Whitecross, Trefynwy, Sir Fynwy, NP25 3BY.

Roedd y Cadeirydd wedi croesawu'r ymgeisydd a'r gwrthwynebydd i'r cyfarfod ac wedi cyflwyno Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion a oedd yn mynychu ac wedi esbonio'r protocol ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr ymgeisydd a'r gwrthwynebydd wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn yr adroddiad ac yn fodlon parhau heb unrhyw gynrychiolaeth gyfreithiol.

Cyflwynwyd y materion a'r manylion allweddol i'r Pwyllgor.

Rhoddwyd cyfle wedyn i'r ymgeisydd i annerch y Pwyllgor er mwyn cynnig unrhyw esboniadau perthnasol. Yn dilyn hyn, roedd Aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a chafwyd trafodaeth.

Yn ystod y drafodaeth, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Cyn y pandemig Covid-19, roedd Clwb Ceidwadol Sir Fynwy ar fin cau gan fod y model busnes yn methu ac nid oedd yn hyfyw i barhau ar agor.

- Yn ystod y pandemig, roedd y safle wedi ei ailwampio.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoli County Hall, Usk - Remote Attendance Dydd Gwener, 12fed Tachwedd, 2021, 10.00 am**

- Roedd yn anodd i ddenu aelodau newydd o bob math yn sgil cysylltiadau gwleidyddol y clwb.

- Roedd yr ymgeisydd wedi datgysylltu ei hun o'r Blaid Geidwadol ac wedi ail-enwi'r safle yn 'The Club'.

- Roedd angen denu mwy o aelodau newydd er mwyn sicrhau bod y model busnes newydd yn medru bod yn hyfyw a thalu am y gwaith adnewyddu.

- Ail-agorodd 'The Club' ym Mai 2021 gyda 195 o geisiadau newydd i ddod yn aelodau.

- Y model busnes yw creu clwb preifat i aelodau.

- Yn ystod y cyfnod, gwnaed cwyn anhysbys gan aelod bod unigolion eraill – na sydd yn aelodau – wedi bod yn mynychu ac wedi bod yn camymddwyn. Roedd cyngor gan y swyddogion trwyddedu yn datgan fod yn rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio gyda'r drwydded bresennol a sicrhau bod yna lyfr ar gyfer gwesteion er mwyn iddynt gofrestru tra'n ymweld gyda'r clwb. Os oedd unigolion – na sy'n aelodau – yn cael eu hannog i ymweld gyda'r clwb, yna byddai'n rhaid i'r ymgeisydd i wneud cais am drwydded mangre trwyddedig.

- Mae 'The Club' ar agor o ganol dydd tan 11.00pm saith diwrnod yr wythnos.

- Fel Clwb Ceidwadol, roedd hawl gan Aelodau i ddefnyddio'r safle o 8.00am ar gyfer gweithgareddau na sydd yn cynnwys alcohol, fel defnyddio'r byrddau snwcer.

- Mae cegin newydd yn y clwb a'r nod yw cynnig ciniawau dydd Sul.

- Roedd grwpiau lleol yn cael eu hannog i barhau i ddefnyddio'r clwb fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

- Mae'r stiwardes yn byw ar y safle a hi yw deiliad y drwydded.

- Mae unrhyw gamymddwyn yn cael ei ddelio ag ef yn briodol.

- Mae gardd gwrw gan y safle ac mae wedi bod ar agor cyn hired â'r clwb.

- Mae'r ardd gwrw wedi ei hail-wampio ac mae wedi annog mwy o bobl i ddefnyddio'r rhan hon o'r clwb yn ystod misoedd yr haf.

- Mae angen i unigolion na sydd yn aelodau i gael eu cofrestru gan aelodau'r Clwb.

- Mae staff y bar a deiliad y drwydded yn ymwybodol o'r angen i ymweld â'r ardd gwrw yn aml er mwyn sicrhau bod modd cadw'r lefelau sŵn cyn ised ag sydd yn bosib.

- Mae'r ymgeisydd wedi derbyn cyngor gan Heddlu Gwent and a'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch ac wedi gosod camerâu cylch cyfyng yn yr ardd gwrw sydd yn recordio sŵn.

- Mae yna arwyddion wedi eu gosod yn yr ardd gwrw sydd yn nodi polisi dim goddefgarwch y clwb at gyffuriau. Mae'r arwyddion yma hefyd yn gofyn i aelodau i fod yn ystyrlon o gymdogion gyda'r nod o gadw sŵn cyn ised ag sydd yn bosib tra'n treulio amser yn yr ardd gwrw a thra'n gadael y rhan hon.

Rhoddwyd cyfle wedyn i'r gwrthwynebydd i annerch y Pwyllgor a chyflwyno unrhyw esboniadau perthnasol. Yn dilyn, roedd Aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn cwestiynau i'r gwrthwynebydd a chafwyd trafodaeth.

Yn ystod y drafodaeth, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Ers agor y clwb a gosod arwyddion 'croeso i bawb' mae'r sŵn yn yr ardd gwrw, yn enwedig yn fisoedd yr haf, wedi bod yn gyson ac wedi achosi trallod sylweddol i gymdogion yn yr ardal.

- Mynegwyd pryderon fod yr oriau agor arfaethedig yn y cais newydd yn mynd i waethygu'r lefelau sŵn yn yr ardd gwrw yn ystod misoedd yr haf.

- Y prif bryder a fynegwyd gan y gwrthwynebydd oedd y sŵn yn yr ardd gwrw yn hwyr y nos. Mynegwyd pryder na fydd hyn yn cael ei fonitro gan y clwb.

- Credwyd y byddai'n anodd i staff y bar sydd eisoes yn brysur dan do i ymweld gyda'r ardd gwrw yn aml.

- Awgrymodd y gwrthwynebydd bod holl agweddau'r cais yn cael eu derbyn ond dylid gosod cyfyngiad ar weini alcohol a defnyddio'r ardd gwrw tan 9.30pm.

Roedd yr ymgeisydd wedi ymateb i'r gwrthwynebydd drwy ddatgan y byddai o blaid bod yna amod yn cael ei ychwanegu ar y drwydded bod yr ardd gwrw yn cau am 10.00pm bob nos.

Yn dilyn y datganiadau a wnaed gan yr ymgeisydd a'r gwrthwynebydd, rhoddwyd cyfle i Aelodau i ofyn cwestiynau. Roeddynt wedi gwneud y pwyntiau canlynol:

- Gydag amser, hoffai'r ymgeisydd symud at bolisi lle y mae'n rhaid i aelodau fod yn 25 mlwydd oed a'n hŷn.

- O ran ymddygiad aelodau'r clwb, nid oes modd gwahardd aelodau tan fod yna reswm digonol.

- Mae maint yr ardd gwrw yn parhau'r un fath.

- Mae'r clwb yn gweithredu polisi dim goddefgarwch at gamymddwyn ymhlith aelodau.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoli County Hall, Usk - Remote Attendance**
**Dydd Gwener, 12fed Tachwedd, 2021, 10.00 am**

- Roedd y gwrthwynebydd wedi datgan y byddai'n ffafrio cau'r ardd ar amser penodol, sydd yn golygu y byddai ar gau i aelodau'r clwb.

Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd a'r gwrthwynebydd i gynnig crynodeb.

Yn dilyn cwestiynau, roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio a'r cynrychiolydd Cyfreithiol wedi gadael y cyfarfod er mwyn ystyried a thrafod eu canfyddiadau.

Ar ôl ail-ddechrau'r cyfarfod, roedd y Cadeirydd wedi cynghori fod y Pwyllgor wedi penderfynu caniatáu'r drwydded ar yr amodau canlynol:

- Gweithgareddau sydd angen trwydded i'w cynnal rhwng 08:00am a 12:00am – ac nid 12:30am fel oedd cynt.

- Bydd rhaid i Ardd Gwrw'r clwb gau am 10:00pm.